**Gohebiaeth oddi wrth Is – Adran y Cwricwlwm, Asesu ac Addysgeg Llywodraeth Cymru**

Annwyl Aelodau o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG),

Diolch am ystyried y diweddariad diwethaf ynghylch Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau o fewn y Cwricwlwm Newydd i Gymru, a anfonwyd atoch chi ym mis Gorffennaf 2017. Rydym yn gwerthfawrogi'r ymatebion yr ydym wedi'u derbyn hyd yn hyn. Rydym yn dal i dderbyn sylwadau, ac rydym wrthi'n coladu'r adborth er mwyn ei ystyried fel rhan o'r gwaith datblygu.

**Amserlenni**
Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg '*Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*'. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cynnwys amserlenni diwygiedig ar gyfer y cwricwlwm newydd. Wele isod y dyddiadau allweddol perthnasol:

- Ebrill 2019: Cwricwlwm drafft ar gael er mwyn cael adborth arno
- Ionawr 2020: Cwricwlwm terfynol ar gael
- Medi 2022: Pob ysgol a lleoliad a gynhelir i ddefnyddio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd (caiff hyn ei gyflwyno gan ddechrau gydag ysgolion cynradd a blwyddyn 7, ac yna fesul blwyddyn)

**Yr Ymagwedd 'Beth sy'n Bwysig'**
Wrth ystyried sut i ddatblygu'r cwricwlwm newydd, penderfynodd ymarferwyr yr ysgolion arloesi a oedd yn rhan o'r broses ddylunio mai addysgu 'beth sy'n bwysig' fyddai'r man cychwyn ar gyfer llunio'r cwricwlwm newydd. O ganlyniad, mae grwpiau arloesi – gan gynnwys grŵp y Dyniaethau – wedi dechrau'r broses o ddatblygu cysyniadau allweddol ar gyfer trefnu'u Meysydd Dysgu a Phrofiad, a hynny drwy bennu 'beth sy'n bwysig' yn eu meysydd – hynny yw, beth yw'r elfennau allweddol y dylai pob dysgwr eu dysgu a'u profi yn y meysydd dan sylw yn ystod eu taith drwy'r continwwm addysg.

Bydd pob Maes Dysgu a Phrofiad felly'n seiliedig ar gysyniadau allweddol 'beth sy'n bwysig'. Mae'r cysyniadau hyn yn cael eu datblygu fel nad oes gormod o amrywio o ysgol i ysgol ond, hefyd, i sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd yn lleol. Bydd y cysyniadau 'beth sy'n bwysig' ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Pedwar Diben y cwricwlwm newydd. Byddant hefyd yn adlewyrchu syniadau cyfredol mewn perthynas â gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau disgyblaethol pwysig ar gyfer pob maes.

**Y broses ddatblygu**
Er mwyn pennu 'beth sy'n bwysig' yn y gwahanol bynciau a disgyblaethau sy'n rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, comisiynwyd arbenigwyr i lunio cyfres o bapurau i gefnogi gwaith y grŵp arloesi. Ymhlith y rhain mae papurau ar Hanes, Daearyddiaeth, Busnes, Astudiaethau Cymdeithasol ac Addysg Grefyddol. Nod y papurau hyn yw amlinellu'r canlynol ar gyfer pob disgyblaeth:

- y craidd: hynny yw'r wybodaeth / cysyniadau, a'r sgiliau a'r cymwyseddau cysylltiedig, y mae angen i bob disgybl eu dysgu;

- dilyniant ar gyfer yr uchod, a mynegiad o'r hyn y dylai disgyblion ei ddysgu neu gael profiad ohono, a hynny'n gysylltiedig, yn fras, â'r disgwyliadau ar gyfer 5 oed, 8 oed, 11 oed, 14 oed ac 16oed.
- Gan adeiladu ar yr uchod; awgrymu cysyniadau allweddol ar gyfer 'beth sy'n bwysig'.

Comisiynwyd Cymdeithas CYSAGau Cymru i baratoi papur trafod mewn perthynas ag Addysg Grefyddol. Hefyd, aeth cynrychiolwyr i weithdy arloeswyr y Dyniaethau ym mis Tachwedd 2017 i gyflwyno'r papur a gweithio gyda'r grŵp i ddatblygu cynigion ar gyfer y maes dysgu a phrofiad. Mae copi o'r papur hwn yn atodedig.

Gyda chymorth y mewnbwn arbenigol a amlinellir uchod a chan bennu 'beth sy'n bwysig' ar gyfer pob disgyblaeth sy'n rhan o'r Dyniaethau, darparwyd sylfaen gadarn i alluogi'r grŵp arloesi i ddatblygu cysyniadau allweddol 'beth sy'n bwysig' trosfwaol ar gyfer trefnu'r Maes Dysgu a Phrofiad.

**Y Cynigion 'Beth sy'n Bwysig'**

Atodaf gynigion ar gyfer cysyniadau allweddol 'beth sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Datblygwyd y cynnwys ym mis Rhagfyr 2017 i'w gyflwyno i'r Grŵp Cwricwlwm ac Asesu, ac mae felly'n adlewyrchiad o'r hyn oedd dan ystyriaeth y grŵp arloesi bryd hynny. Mae'r grŵp yn parhau i gwrdd bob tair wythnos ac mae bellach wedi dechrau datblygu fframweithiau dilyniant ar gyfer pob un o'r datganiadau 'beth sy'n bwysig' hyn. Wrth ddatblygu'r fframweithiau hyn a manylion eraill y Maes Dysgu a Phrofiad yn ystod tymor y Gwanwyn, bydd geiriad y cysyniadau allweddol yn y ddogfen atodedig yn siŵr o newid.

Hoffem eich gwahodd, fel CYSAG, i ystyried y cynigion cychwynnol hyn ar gyfer 'Beth sy'n Bwysig' a rhoi sylwadau neu awgrymiadau i'w hystyried yn ystod cam nesaf y gwaith datblygu.

Bydd gwybodaeth bellach, ynghyd â'r cynigion ar gyfer y chwe maes dysgu a phrofiad, gan gynnwys y Dyniaethau, ar gael yn fuan ar ein gwefan:
http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?skip=1&lang=cy

Gwerthfawrogwn pe baech chi'n anfon eich sylwadau ataf i: manon.jones@gov.wales

**Camau Nesaf**

Dros y misoedd i ddod, bydd Grŵp Arloesi'r Dyniaethau yn canolbwyntio ar ddatblygu fframweithiau dilyniant ar gyfer y maes dysgu a phrofiad, gyda chymorth prosiect CAMAU (cydweithwyr o Brifysgol y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glasgow). Yn ystod y cyfnod hwn, caiff cynnwys y Maes Dysgu a Phrofiad ei ddatblygu'n fanylach.

Fe anfonwn ni'r diweddariad nesaf atoch tua diwedd mis Mai, gan ofyn eto am eich barn. Hefyd, fe gysylltwn â chi yn y man i ddweud wrthych am gyfleoedd i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm yn ystod tymor yr haf.

Cofion gorau,

Manon Jones,
Is – Adran y Cwricwlwm, Asesu ac Addysgeg, Addysg, Llywodraeth Cymru